Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cymru'n Gweithio

Cyngor gyrfaoedd, anogaeth a chymorth cyflogaeth personol am ddim.

**Cymru'n Gweithio**

#newiddystori

Cer i cymrungweithio.llyw.cymru
Ffonia 0800 028 4844
Galwa i mewn i dy Ganolfan Gyrfa Cymru agosaf

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Mae Cymru'n Gweithio yn wasanaeth am ddim sydd ar gael i unrhyw un sy'n 16 oed a throsodd ac sy'n byw yng Nghymru er mwyn cael gafael ar gyngor arbenigol ac anogaeth i oresgyn unrhyw rwystrau i gael swydd a chamu ymlaen yn dy yrfa.

Gall Cymru'n Gweithio dy helpu i newid dy stori drwy gynnig:

- Help i ddod o hyd i gyfleoedd swyddi
- Cymorth gyda CV a cheisiadau
- Cymorth gyda pharatoi am gyfweliad
- Cymorth ar ôl colli swydd a chyda diweithdra
- Cymorth i wneud cais am gyllid
- Cyngor ac anogaeth ar newid gyrfa
- Help i uwchsgilio a chael hyfforddiant

Cer i cymrungweithio.llyw.cymru



## Sut y gall Cymru'n Gweithio fy helpu?

Mae Cymru'n Gweithio yn un pwynt cyswllt ar gyfer dy holl anghenion cymorth cyflogaeth. Gelli gael cyngor sydd wedi'i deilwra i ti, beth bynnag yw dy sefyllfa.

Efallai dy fod yn dioddef o salwch, bod angen help arnat ti gyda gofal plant neu dy fod yn chwilio am gyllid er mwyn dysgu sgiliau newydd. Beth bynnag yw'r rhwystr rhag cael swydd neu gamu ymlaen yn dy yrfa, gallwn helpu.

## Sut mae'n gweithio?

Pan fyddi di'n cysylltu â ni, bydd ein cynghorwyr gyrfa a'n hanogwyr cyflogadwyedd arbenigol yn gweithio gyda thi i nodi'r pecyn cymorth gorau i ti a chytuno ar gynllun gweithredu sydd wedi'i deilwra i dy anghenion.



Ffonia ni ar 0800 028 4844



# Darganfod mwy

Cer i cymrungweithio.llyw.cymru
Ffonia 0800 028 4844
Galwa i mewn i dy ganolfan Gyrfa Cymru agosaf

Caiff Cymru'n Gweithio ei ddarparu gan Gyrfa Cymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.